

Cyfeirnod: IR758

Dyddiad cyhoeddi: 11 Rhagfyr 2020

Manylion a strwythur staff

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth ar 18 Tachwedd 2020 pan wnaethoch ofyn am wybodaeth am fanylion cyswllt staff a siart strwythur uwch cyfredol.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhychu eich **cwestiynau isod** ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol.

- **A fyddech cystal â rhoi'r enwau diweddaraf, Teitlau Swyddi, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost ar gyfer y canlynol:**

Gallwch ddod o hyd i fanylion uwch rolau, gan gynnwys ein Prif Weithredwr (Archwilydd Cyffredinol Cymru), y Tîm Arwain Gweithredol, Cyfarwyddwyr, Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd ar ein gwefan:

<https://www.audit.wales/cy/amdanom-ni/pwy-yw-pwy>

Gallwch gysylltu drwy'r manylion ar ein gwefan, sydd hefyd yn rhoi dolenni gyda gwybodaeth bellach ynglŷn â ble gyfeirio eich ymholiad orau:

<https://www.audit.wales/cy/cysylltwch-â-ni> (er enghraifft gellir anfon unrhyw ymholiadau cyffredinol at info@audit.wales neu 029 2032 0500, gellir cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a'n Swyddog Gwybodaeth drwy infoofficer@audit.wales).

Rwy'n atal manylion yr holl staff eraill (neu'r rhai â theitlau swyddi cyfatebol) o dan a40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan ei fod yn ddata personol y deiliaid rôl a byddai datgelu yn torri egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 2018. Mae hwn yn eithriad llwyr. Wrth atal y wybodaeth hon, rwyf wedi ystyried canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddatgelu data personol <https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/2614720/personal-information-section-40-and-regulation-13-version-21.pdf> a'i ganllawiau ar geisiadau am wybodaeth am weithwyr awdurdodau cyhoeddus https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1187/section_40_requests_for_personal_data_about_employees.pdf. Rolau rheoli canol neu iau yw'r rolau hyn, ac nid ydynt ar gael i'r cyhoedd. Nid oes gan y staff hyn gyfrifoldeb penodol dros wario arian cyhoeddus – mae hyn ar lefel uwch yn y sefydliad.

- **Yn ogystal, os oes gennych siart sefydliad neu siart strwythur uwch staff cyfredol ar gyfer 2020, a fydddech cystal ag anfon copi ataf naill ai ar ffurf Excel neu pdf**

Rwy'n atodi'r siart sefydliad uwch staff diweddaraf (nid yw pob swydd wedi'i llenwi ar hyn o bryd, gan fod hyn yn rhan o ailstrwythuro parhaus).

Os hoffech gwyno am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Pennaeth y Gyfraith a Moeseg, drwy e-bost i martin.peters@audit.wales.

Rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y gallwch wneud cais oddi tani i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire SK9 5AF
e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi bod drwy ein holl weithdrefnau cwyno mewnol cyn delio â chais o'r fath. Ceir canllawiau pellach ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ar yr uchod, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yr eiddoch yn gywir
Swyddog Gwybodaeth